OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 3461 (Cy.280)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Diwygio Rheoliadau Porthiant (Cymru) a Rheoliadau Porthiant (Gorfodi) (Cymru) 2001

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *16 Hydref 2001* |
| *Yn dod i rym* | - - | *3 Tachwedd 2001* |

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i Weinidogion y Goron gan adrannau 66(1), 68(1) ac (1A), 69(1), 74A ac 84 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970(**1**), sydd bellach yn arferadwy yng Nghymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), ac ar ôl ymgynghori yn unol â gofynion adran 84(1) o'r Ddeddf honno â'r personau neu'r cyrff y mae'n ymddangos eu bod yn cynrychioli'r buddiannau o dan sylw, a chan ei fod wedi'i ddynodi(**3**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**4**)) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran 2(2)(**5**) a enwyd (i'r graddau na all y Rheoliadau hyn gael eu gwneud o dan y pwerau yn Neddf Amaethyddiaeth 1970 a bennir uchod), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

(**1**) 1970 p. 40; mewnosodwyd adran 74A gan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, p.68, Atodlen 4, paragraff 6, a diwygiwyd y Ddeddf gan Reoliadau Diwygio Deddf Amaethyddiaeth 1970 1982 (O.S. 1982/980). Mae adran 66(1) yn cynnwys diffiniadau o'r ymadroddion "the Ministers", "prescribed" a "regulations"; diwygiwyd y diffiniad o "the Ministers" gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 (O.S. 1978/272), Atodlen 5, paragraff 1.
(**2**) Yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672)
(**3**) Yn rhinwedd Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 3) 1999 (O.S. 1999/2788).
(**4**) 1972 p. 68.
(**5**) Fel y'i darllenir gydag adran 2(5) o Ddeddf Ardaloedd Economaidd Ewrop 1993 (p.51).